



TAITH PYLLAU
GLO CYMRU
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA

A WELSH COAL
MINING EXPERIENCE
RHONDDA HERITAGE PARK

LLWYBR TIRWEDD TRAMFFORDD

DEWCH I DDOD Â PHOBL, DAEAREG, NATUR A STRAEON YN FYW

THE TRAMROAD LANDSCAPE TRAIL

LET'S BRING ALIVE PEOPLE, GEOLOGY, NATURE AND STORIES!



Dechreuwch yma ...

...ar waelod y maes parcio a dilynwch y llwybr i Heol Cadwgan.

Pan welwch chi'r Bertie, croeswch y ffordd a cherdded i fyny'r stryd ac fe welwch hi fynedfa'r llwybr ar eich chwith. Nawr rydych chi'n barod i ddechrau'ch antur.

Start here...

...at the bottom of the car park and follow the path onto Cadwgan Road.

When you see the Bertie, cross the road and walk up the street and you will see the entrance to the path on your left. Now you are ready to begin your adventure.




MAN AROS | STOP: 6

Cadwch lygad am weddillion hen drac y tram ar y llawr wrth ymyl y Caffi ym Mharc Gwledig Barry Sidings.

Adeiladwyd y dramffordd yn 1809 gan Dr Richards Griffiths, cymeriad lleol lliwgar a welodd potensial y diwydiant glo yng Nghymoedd y Rhondda.

Look out for the remains of the old tram track on the floor next to the Café at Barry Sidings.


The tramroad was built in 1809 by Dr. Richards Griffiths, a colourful local character who saw the potential of the Rhondda coal industry.



MAN AROS | STOP: 2

Arhoswch pan welwch chi'r lliw coch yn y nant.

Mae'r cwm o amgylch yn llawn bob math o greigiau a ffosiliau o gyfnod pan oedd y moroedd cynnes yn gorchuddio'r fan hon. Mae'r lliw coch hwn yn y nant yn arwydd i ni o un o'r metelau sydd yn cuddio yn y creigiau gerllaw.



Stop when you see the red colour in the stream.

The valley around you is full of a variety of rocks and fossils. This colour of red in the stream gives a clue to one of the metals that could be hiding in the rocks nearby.



MAN AROS | STOP: 3

Arhoswch pan welwch chi'r llecyn clir yma i fyny'r bryn ar y dde. Mae'r olygfa hon yn cynnwys y fynedfa i 'fwynglawdd driff'.

Mae'r fynedfa i'r mwynglawdd yn guddiedig iawn nawr. Mae'n fwynglawdd 'driff', a dyma un o'r safleoedd cyntaf o amgylch Trehafod yr oedd pobl yn ei ddefnyddio i gael gafaer ar y glo.

Stop when you see this clearing up the hill to your right. This view includes the entrance to a 'drift mine'.

The entrance to this mine is very overgrown now. This mine is a 'drift' mine and it was one of the first sites around Trehafod that people used to access coal.



MAN AROS | STOP: 4

Arhoswch pan welwch chi'r rhedyn i'r chwith o'r llwybr, cyn cyrraedd yr ardal hamdden ym Mharc Gwledig Barry Sidings.

Dyma ffosil a ganfuwyd yng Nghwm Rhondda Fach. Ydych chi'n gallu paru'r llun â siapiau'r planhigion a welwch chi'n tyfu yma?

Stop when you see these ferns on the right of the path, just before reaching the play area at Barry Sidings.


This is a fossil that was found in the Rhondda Fach valley. Can you match the image to the plant shapes that you see growing here?



MAN AROS | STOP: 1

Mae eich man aros cyntaf wrth y bont gyntaf y dewch iddi, ar ôl dechrau'r llwybr ar Heol Cadwgan.

Your first stop is at the first bridge you come to, after the start of the trail on Cadwgan Road.



MAN AROS | STOP: 5

Arhoswch pan ddewch chi i'r ardal werdd agored ychydig cyn y Caffi ym Mharc Gwledig Barry Sidings.

Ym 1873, cyn bod y mwyngloddio ar ei anterth, roedd yr ardal wedi'i gorchuddio â gwyrddni. Erbyn 1921 roedd yn rhaid torri llawer o'r coed i lawr i'w defnyddio yn y diwydiant mwyngloddio ac i wneud lle i dai.

Stop when you come to the open green area just before the Café at Barry Sidings.

In 1873, before mining was at its height, the area was covered in greenery. By 1921 a lot of the trees had to be cut down to be used in the mining industry and to make room for housing.




Nawr mae'n bryd mynd yn ôl i Daith Pyllau Glo Cymru. Ar eich ffordd yn ôl rwyf am ichi nodi'r holl arogluon, synau a golygfeydd y byddech chi o bosib wedi'u profi ar y llwybr yma pan roedd yn cael ei ddefnyddio gan y pwll glo.


CLIW: Meddylwch am y ceffylau a oedd yma, y bywyd gwyllt neu hyd yn oed y menywod yn mynd i siopa.

Now it's time to head back to the Welsh Mining Experience. On your way back I want you to make note of all the scents, sounds and sights you might have experienced on this route when it was used by the colliery.

CLUE: Think of the horses here, the wildlife or even women going shopping.



1873



1921

MAN AROS | STOP: 1

Mae'r man lle rydyn ni'n sefyll wedi'i nodi gyda seren ar y map yma o 1921. **Gan edrych yn y fan hon, ac ar draws y cwm o'r llecyn agored yma, welwch chi unrhyw beth arall sydd wedi'i nodi ar y map?**

Where we are standing is marked on the map from 1921 with a star. **Looking here, and across the valley from the clearing, can you see anything else which is marked on the map?**

.....

.....


.....

MAN AROS | STOP: 2

Yn y nant, mae'r dŵr wedi liffo drwy haearnfaen ac mae'n cludo haearn. Mae bacteria yn ocsideiddio'r haearn ac mae hyn yn creu egni, sydd yn ei dro'n troi'n llaid oren! **Gan gofio fod haearn yn rhydu, rhowch gylch o amgylch pa eitem o'r canlynol rydych chi'n meddwl y byddai'n rhydu.**

The water, in the stream, has flowed through ironstone and carries iron. Bacteria oxidises the iron and this makes energy, which in turn makes orange slime!

Remembering that iron can make things rust, circle which one of these items you think would rust?



MAN AROS | STOP: 3

Enw'r mwynglawdd drifft yma oedd Lefel yr Eirw. Agorodd yn 1842. Roedd y lofa yn cyflogi 25 o ddynion a 5 bachgen. Un o'r bechgyn yma oedd William Evans, a oedd yn 10 oed. Roedd yn gweithio wrth y drws fel trapiwr. **Sut byddech chi wedi teimlo be bai chi'n gweithio yn y pwll glo yn blentyn?**

This drift mine was called Eirw Level, which opened in 1842. The mine employed 25 men and 5 boys. One of these boys was 10 year old William Evans who worked as a door boy (trapper).

How would you have felt working in the mine as a child?

.....

.....

.....

MAN AROS | STOP: 4

Oeddech chi'n gwybod bod rhedyn yn rhywogaeth hynafol, ac wedi cyfrannu at y carbon mewn glo? Dyma pam mae glo yn danwydd ffosil - mae'n adnodd naturiol sy'n cael ei ffurfio o weddillion planhigion a fu farw filyynau o flynyddoedd yn ôl. Mewn gwirionedd gall gymryd hyd at 300 miliwn o flynyddoedd i lo ffurfio!

Nodwch unrhyw blanhigion, flodau neu fywyd gwylt arall a welwch chi o'ch cwmpas:

Did you know, that ferns are an ancient species, and contributed to the carbon in coal? This is why coal is a fossil fuel, it is a natural resource that is formed from the remains of plants that died millions of years ago. In fact it can take up to 300 million years for coal to form!

Write any other plants, flowers or wildlife that you can see around you:

.....

.....

MAN AROS | STOP: 5

Wrth edrych i fyny'r cwm rydyn ni'n gweld planhigfeydd y Comisiwn Coedwigaeth ar y bryn o'r deng mlynedd ar hugain diwethaf, ac effaith 'ail-wyrddio' y dramffordd. Mae hyn wedi gwella'r amgylchedd a bywyd gwylt yn fawr yma. **Edrychwch ar y map yma o 1873, y map o 1921 a'r hyn y gallwch chi ei weld nawr. Ydych chi'n gallu gweld unrhyw wahaniaethau i'r amgylchedd dros amser?**

When we look up the valley we can see the Forestry Commissions' plantations on the hill from the past thirty years, and the effect of the 're-greening' of the tramroad. This has greatly improved the environment and wildlife here.

Looking at the map from 1873, the 1921 map and what you can see now, can you see any differences to the environment over time?

.....

.....

MAN AROS | STOP: 6

Roedd y dramffordd yn cysylltu'r pyllau glo cyntaf yn y cwm â chamlas Sir Forgannwg, ac yn cyflenwi glo i ddiwydiannau gwaith haearn ym Mhontypridd. Roedd hefyd yn darparu cludiant i'r menywod o Gwm Rhondda i ymweld â Phontypridd ar ddiwrnodau marchnad.

Ydych chi'n meddwl bod y dramffordd wedi gwneud bywyd yn haws neu'n anoddach i bobl a oedd yn byw yng Nghwm Rhondda, a pham?

The tramroad linked the first coal mines in the valley with the Glamorganshire canal and supplied coal to the iron-working industries of Pontypridd. It also provided transport for the women from the Rhondda Valley to visit 'Ponty' on market days.

Do you think the tramroad made life easier or harder for people living in the Rhondda and why?

.....

.....